THOMAS, EDWARD ('Idriswyn '; 1847 - 1906), newyddiadurwr

Enw: Edward Thomas
Ffugenw: Idriswyn
Dyddiad geni: 1847
Dyddiad marw: 1906
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: newyddiadurwr
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Edward Morgan Humphreys

Brodor o Aberystwyth medd *Bye-Gones*, eithr cyfeirir ato mewn englyn coffa yn *Y Geninen* fel Meirionwr - o Ddolgellau, yn ôl y *Welsh Gazette* a'r *Cambrian News*. Bu'n bennaeth ar rai o'r gweithwyr yn swyddfa argraffu 'r *Cambrian News*, Aberystwyth; wedyn bu yng Nghaerdydd am dros 20 mlynedd ar staff y *Western Mail*, ar y cyntaf yn bennaeth ('overseer') yn y swyddfa argraffu ac wedi hynny yn golygu y *Weekly Mail*. Ysgrifennodd lawer ar faterion Cymreig ac ystyrid ef yn amddiffynnydd yr iaith. Bu farw 15 Mehefin 1906 yn Aberystwyth.

Awdur

Edward Morgan Humphreys, (1882 - 1955)

Ffynonellau

Bye-Gones, relating to Wales and the Border Counties, 20 Mehefin 1906

The Welsh Gazette, 21 Mehefin 1906

The Cambrian News and Merionethshire Standard, 22 Mehefin 1906

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q28361453

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu